WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Llythyr Archwilio Blynyddol ar gyfer 2015-16 – **Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru a Phrif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru**

Cyhoeddwyd: Tachwedd 2016

Cyfeirnod y ddogfen: 622A2016

Paratowyd y ddogfen hon i'w defnyddio'n fewnol gan Gomisiynydd Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru a Phrif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Nid yw'r Archwilydd Cyffredinol na staff Swyddfa Archwilio Cymru yn cymryd unrhyw gyfrifoldeb yng nghyswllt unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na gweithiwr arall fel unigolion, nac yng nghyswllt unrhyw drydydd parti.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol.

Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Roedd y tîm a gyflawnodd y gwaith yn cynnwys Ann-Marie Harkin, Michelle Phoenix, ac Andy Bruce ac Alan Hughes.

# Cynnwys

Cyflwyniad

Rhoddais farn ddiamod ar ddatganiadau ariannol Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu, y Prif Gwnstabl a Chronfa Bensiwn yr Heddlu ar gyfer 2015-16 4

Rwy'n fodlon bod gan y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl drefniadau priodol ar waith yn ystod y flwyddyn i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran eu defnydd o adnoddau 6

Cyhoeddais dystysgrif yn cadarnhau bod yr archwiliad o'r cyfrifon wedi'i gwblhau ar 27 Medi 2016 10

Atodiadau

Meini prawf ar gyfer asesu trefniadau o ran sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau 11

Risgiau archwilio sylweddol 12

# Cyflwyniad

1 Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi fy nghanfyddiadau o'r gwaith archwilio rwyf wedi'i wneud mewn perthynas â Chomisiynydd yr Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru (y Comisiynydd) a Phrif Gwnstabl Gogledd Cymru (y Prif Gwnstabl) yn ystod 2016.

2 Mae'r gwaith rwyf wedi'i wneud yn fy ngalluogi i gyflawni fy nghyfrifoldebau o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Deddf 2004) o ran archwilio cyfrifon a threfniadau'r ddwy gorfforaeth unigol i sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd o ran eu defnydd o adnoddau.

3 Ceir rhagor o fanylion am yr agweddau penodol ar fy archwiliad yn yr adroddiadau ar wahân a gyflwynwyd gennyf yn ystod y flwyddyn. Mae fy nhîm wedi trafod yr adroddiadau hyn a chytuno arnynt gyda swyddogion ac fe'u cyflwynwyd i'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu, y Prif Gwnstabl a'r Cyd-bwyllgor Archwilio. Nododd fy Nghynllun Archwilio ar gyfer 2016 risgiau archwilio'r datganiadau ariannol ar gyfer 2016, ac mae Atodiad 2 yn dangos sut rhoddwyd sylw iddynt fel rhan o'r archwiliad.

# Rhoddais farn ddiamod ar ddatganiadau ariannol Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu, y Prif Gwnstabl a Chronfa Bensiwn yr Heddlu ar gyfer 2015-16

4 Mae'r datganiadau ariannol yn ffordd hanfodol i'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl roi cyfrif am y modd y maent yn gwarchod yr adnoddau sydd ar gael iddynt ac am eu perfformiad ariannol wrth ddefnyddio'r adnoddau hynny. Eu cyfrifoldeb hwy yw:

- rhoi systemau rheolaeth fewnol ar waith er mwyn sicrhau rheoleidd-dra a chyfreithlondeb trafodion;
- cadw cofnodion cyfrifyddu cywir; a
- pharatoi datganiadau ariannol yn unol â gofynion perthnasol.

5 Mae'n ofynnol i mi archwilio'r datganiadau ariannol a chyhoeddi adroddiadau archwilio sy'n cynnwys barn ar p'un a yw'r datganiadau ariannol yn cyflwyno darlun 'cywir a theg' o sefyllfa'r Comisiynydd, y Prif Gwnstabl a Chronfa Bensiwn yr Heddlu. Mae'r adroddiadau hefyd yn rhoi fy marn ar p'un a yw'r datganiadau ariannol wedi'u paratoi'n briodol yn unol â'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2015-16 a rheoliadau perthnasol.

6 Ar 27 Medi 2016, cyhoeddodd yr Archwilydd Cyffredinol adroddiadau archwilio diamod ar ddatganiadau ariannol y Comisiynydd, y Prif Gwnstabl a Chronfa Bensiwn yr Heddlu.

7 Daeth yr holl ddatganiadau ariannol drafft ar gyfer y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2016 i law ar 30 Mehefin, yn unol â'r dyddiad cau y cytunwyd arno.

8 Gwelsom fod y wybodaeth a'r papurau gwaith a roddwyd i ategu'r cyfrifon yn berthnasol, yn ddibynadwy, yn gymaradwy ac yn hawdd eu deall. Daethom i'r casgliad bod y polisïau a'r amcangyfrifon cyfrifyddu yn briodol a bod datgeliadau'r datganiadau ariannol yn ddiduedd, yn deg ac yn glir. Ni chododd unrhyw anawsterau sylweddol yn ystod yr archwiliad. Cawsom wybodaeth mewn modd amserol a hwylus ac ni chyfyngwyd ar ein gwaith.

9 Mae Safon Archwilio Ryngwladol (ISA) 260 yn ei gwneud yn ofynnol i archwilwyr gyflwyno adroddiadau i'r 'rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu' ar ganfyddiadau'r archwiliad o'r datganiadau ariannol. Cyflwynwyd yr Adroddiad ar yr Archwiliad o'r Datganiadau Ariannol i'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl ac i'r Cyd-bwyllgor Archwilio yn eu cyfarfod ar 21 Medi 2016. Ceir crynodeb o'r canfyddiadau yn Arddangosyn 1.

## Arddangosyn 1: Adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol i'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl

Crynodeb o ofynion adrodd 2015-16 a chanfyddiadau'r archwiliad

| Gofynion adrodd | Canfyddiadau'r archwiliad |
|---|---|
| Addasiadau i adroddiad yr archwilydd | Nid oedd angen unrhyw addasiadau, rhoddwyd barn ddiamod |
| Camddatganiadau nas addaswyd | Ni chafwyd dim camddatganiadau nas addaswyd |
| Safbwyntiau ynglŷn â'r agweddau ansoddol ar arferion cyfrifyddu ac adroddiadau ariannol yr endid | Ni nodwyd unrhyw faterion |
| Materion y gohebwyd â'r rheolwyr yn eu cylch | Ni nodwyd unrhyw faterion |
| Materion sy'n arwyddocaol o ran goruchwylio'r broses adrodd ariannol | Ni nodwyd unrhyw faterion |
| Gwendidau perthnasol o ran rheolaethau mewnol | Ni nodwyd unrhyw wendidau sylweddol |
| Materion y mae'n ofynnol iddynt yn benodol, dan safonau archwilio eraill, gael eu cyfleu wrth y rheini sy'n gyfrifol am lywodraethu | Ni nodwyd unrhyw faterion |

## Rwy’n fodlon bod gan y Comisiynydd a’r Prif Gwnstabl drefniadau priodol ar waith yn ystod y flwyddyn i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran eu defnydd o adnoddau

10 Roedd fy ystyriaeth o drefniadau’r Comisiynydd a’r Prif Gwnstabl i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn seiliedig ar y gwaith archwilio a wnaed ar y cyfrifon. Rwyf hefyd wedi dibynnu ar:

- ganlyniadau’r gwaith archwilio a wnaed ar systemau rheolaeth fewnol y Comisiynydd a’r Prif Gwnstabl, fel y’u nodir yn y Datganiadau Llywodraethu Blynyddol;
- canlyniadau gwaith a gynhaliwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol;
- canlyniadau gwaith a gynhaliwyd gan gyrff adolygu allanol eraill, ee, Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi (HMIC), lle bo hwnnw’n berthnasol i’m cyfrifoldebau i; ac
- unrhyw waith arall, gan gynnwys gan y gwasanaeth Archwilio Mewnol, a oedd yn angenrheidiol, yn fy marn i, er mwyn cyflawni fy nghyfrifoldebau.

11 At ddibenion fy ngwaith, gwerthusais systemau’r Comisiynydd a’r Prif Gwnstabl yn erbyn nifer o gwestiynau. Nodir y camau a gymerwyd yn Atodiad 1. Ar gyfer pob cwestiwn, rwyf yn ystyried a oes bylchau yn y trefniadau y disgwylir iddynt fod ar waith ac arwyddocâd y bylchau hynny.

## Mae gan y Comisiynydd a’r Prif Gwnstabl fframweithiau sydd wedi hen sefydlu ar waith i bennu perfformiad, ymgynghori arno a’i fonitro yn erbyn amcanion strategol a blaenoriaethau

12 Canfuom fod y Comisiynydd yn datgan ei flaenoriaethau a’i amcanion yn glir yn y Cynllun Heddlu a Throseddu ar gyfer pob blwyddyn, gyda’r cynllun diweddaraf wedi’i lunio ar gyfer 2016. Paratoir y cynllun yn flynyddol ar ôl ymgynghori â rhanddeiliaid allweddol gan gynnwys y Prif Gwnstabl, trigolion Gogledd Cymru a phartneriaid allweddol yn y sector cyhoeddus.

13 Mae’r Bwrdd Gweithredol Strategol, y mae’r Comisiynydd yn gadeirydd arno, yn craffu ac yn herio er mwyn adolygu a monitro’r ffordd y caiff y cynllun ei weithredu. Mae gwaith craffu pellach yn cael ei ddarparu gan y Panel Heddlu a Throseddu annibynnol sy’n ystyried y cynllun ynghyd â phenderfyniadau allweddol eraill a wna’r Comisiynydd megis praesept y Dreth Gyngor ar gyfer 2016-17.

14 Caiff perfformiad gweithredol ei fonitro ar amrywiol lefelau ar draws yr Heddlu. Mae'r Uwch Dîm Rheoli yn cyfarfod yn wythnosol a'r Prif Swyddogion bob pythefnos i ystyried materion gweithredol a pherfformiad yn erbyn yr amcanion yn y cynllun; mae'r Prif Gwnstabl yn monitro perfformiad a chynnydd yn erbyn amcanion y cynllun yn y Bwrdd Cynllunio Strategol ac mae'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu yn cyflwyno adroddiadau cynnydd i'r Bwrdd Gweithredol Strategol. Cyflwynir adroddiadau ar berfformiad ariannol yn erbyn cyllidebau a chynlluniau arbedion ynghyd â'r perfformiad gweithredol.

15 Mae'r systemau rheolaeth fewnol a llywodraethu wedi parhau i ddatblygu yn 2015-16. Mae'r Llawlyfr Llywodraethu Corfforaethol yn datgan fframweithiau cyfreithiol a llywodraethu'r Comisiynydd i gefnogi ei swyddogaethau ac mae'n cynnwys y Cynllun Caniatâd rhwng y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl. Mae'r Cydfwrdd Llywodraethu ar waith i sicrhau bod y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl yn cyflawni eu cyfrifoldebau llywodraethu corfforaethol.

16 Cyfarfu'r Cyd-bwyllgor Archwilio yn ffurfiol bedair gwaith yn ystod 2015-16 i ystyried canlyniadau gwaith y gwasanaeth Archwilio Mewnol a'n gwaith ni, ac mae wedi cynnal ymarferiad hunanasesu o'i berfformiad yn ystod y flwyddyn. Mae'r Cyd-bwyllgor Archwilio yn parhau i weithio'n dda, gan roi sicrwydd ac argymhellion priodol i'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl, a chynhyrchu adroddiad blynyddol sy'n crynhoi ei waith.

17 Mae'r broses Rheoli Risg yn cael ei hadolygu yn dilyn ymadawiad y Rheolwr Risg ar ddiwedd 2015-16 ac yn dilyn ail-ddyrannu'r maes hwn o fewn yr Heddlu. Rhaid i'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl sicrhau bod y dull gweithredu newydd hwn yn parhau i gael ei ddatblygu i'r dyfodol.

18 Mae Comisiynwyr a Phrif Gwnstabliaid y pedwar heddlu yng Nghymru yn cyfarfod yn rheolaidd yn y Grŵp Plismona Cymru Gyfan i ystyried materion a chydlynu ymatebion. Lluniodd y grŵp hwn Femorandwm Dealltwriaeth ar gyfer gwaith cydweithredol Cymru gyfan. Mae'r memorandwm hwn yn disgrifio'r trefniadau monitro a chraffu ar gyfer y gwaith cydweithredol hwnnw. Mae'r Comisiynydd hefyd wedi mabwysiadu'r Memorandwm Dealltwriaeth ar draws ei drefniadau cydweithredol ei hun.

19 Drwy ein gwaith archwilio o ddatganiadau ariannol a Datganiadau Llywodraethu Blynyddol y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl ar gyfer 2015-16 ni welsom unrhyw wendidau sylweddol yn y systemau rheolaeth.

20 Mae adolygiadau a gynhaliwyd gan HMIC yn cefnogi fy nghasgliadau ynglŷn â threfniadau i sicrhau gwasanaeth heddlu effeithlon ac effeithiol. Ochr yn ochr â'u hadolygiadau o agweddau penodol ar weithrediadau'r Heddlu, mae HMIC hefyd yn cynnal adolygiad cyffredinol o effeithiolrwydd, effeithlonrwydd a chyfreithlondeb (PEEL) yr heddlu. Cyhoeddodd HMIC ei hasesiad PEEL ar gyfer 2015 ynghyd ag adolygiad o arweinyddiaeth yr Heddlu ym mis Chwefror 2016, a chyhoeddwyd yr elfen effeithlonrwydd o asesiad PEEL 2016 ym mis Tachwedd 2016. Mae manylion pellach am fethodoleg PEEL a chasgliadau manwl yr asesiad PEEL o Heddlu Gogledd Cymru ar gael ar wefan HMIC.

## Llwyddodd y Comisiynydd a’r Prif Gwnstabl i reoli eu cyllidebau refeniw ar gyfer 2015-16 yn effeithiol, ac maent yn parhau i ymateb yn gadarnhaol i’r heriau ariannol sylweddol

21 Mae’r Comisiynydd a’r Prif Gwnstabl wedi parhau i weithredu o fewn eu cyllideb refeniw yn 2015-16, gyda’r Comisiynydd yn sicrhau tanwariant o £1.1 miliwn. Trosglwyddwyd yr arian hwn i gronfeydd ar gyfer heriau gweithredol i’r dyfodol.

## Mae’r Bwrdd Gweithredol Strategol, y Comisiynydd a’r Prif Gwnstabl yn parhau i gael adroddiadau rheolaidd gan y Prif Swyddog Cyllid, a’r Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau, yn y drefn honno, ar wariant a’r sefyllfa yn erbyn y gyllideb

22 Nodai’r diweddariad cyllid ym mis Mai 2016 y disgwyliwyd mantoli’r gyllideb yn 2016-17. Mae Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru yn helpu i gydlynu gweithgareddau gyda’i bartneriaid ac yn rhoi sylw i’r trefniadau gweithio cymhleth a’r rhwystrau posibl rhag gwella diogelwch cymunedol.

23 Yng Nghynllun Archwilio 2015 i’r Comisiynydd a’r Prif Gwnstabl dywedom y byddai ein rhaglen waith ar gyfer perfformiad yn canolbwyntio ar adolygu effeithiolrwydd trefniadau cydweithredu a phartneriaeth y Comisiynydd, gan hoelio’r sylw’n bennaf ar weithgareddau Diogelwch Cymunedol. Mae ein hadolygiad o ddiogelwch cymunedol ar lefel yr heddlu yn rhan o astudiaeth genedlaethol sy’n cael ei chynnal ar lefel Cymru gyfan (Llywodraeth Cymru), rhanbarthol (ardal Comisiynwyr) a lleol (awdurdodau lleol/Partneriaethau Diogelwch Cymunedol). Ceisia’r astudiaeth ateb y cwestiwn: **A yw Llywodraeth Cymru, Comisiynwyr Heddlu a Throseddu a Phartneriaethau Diogelwch Cymunedol (CSPs) yn gweithio gyda’i gilydd yn effeithiol i drechu troseddu a materion diogelwch cymunedol eraill sy’n cael effaith negyddol ar les pobl?**

24 Cyhoeddodd Archwilydd Cyffredinol Cymru ei adroddiad cenedlaethol ar 18 Hydref 2016 gan ddarparu casgliadau ar waith yr holl bartneriaid sy’n delio â diogelwch cymunedol yng Nghymru. Yn seiliedig ar ganfyddiadau’r archwiliad cenedlaethol hwn, daeth yr Archwilydd Cyffredinol i’r casgliad **bod cyfrifoldebau cymhleth yn ei gwneud hi’n anodd i gyrff cyhoeddus gydgysylltu ffordd strategol o fynd ati i gyflawni diogelwch cymunedol, sy’n gwanhau arweinyddiaeth ac atebolrwydd ar y cyd ac yn tanseilio’r potensial i helpu pobl i aros yn ddiogel.**

25 Fe wnaethom hefyd gynhyrchu adroddiad penodol ar gyfer y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl yn nodi ein canfyddiadau lleol ar waith partneriaethau diogelwch cymunedol, gan roi ystyriaeth i'r canfyddiadau ehangach o dystiolaeth a gasglwyd ar gyfer yr astudiaeth genedlaethol. Yn yr adroddiad lleol hwn daethom i'r casgliad bod **Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru yn helpu i gydlynu gweithgareddau gyda'i bartneriaid ac yn rhoi sylw i drefniadau gweithio cymhleth a rhwystrau posibl rhag gwella diogelwch cymunedol**. Daethom i'r casgliad hwn oherwydd:

- Bod y Comisiynydd yn chwarae rhan amlwg ym maes diogelwch cymunedol ac yn cael cefnogaeth dda gan y partneriaid ar draws y rhanbarth
- Bod blaenoriaethau a rennir ar gyfer diogelwch cymunedol yng Ngogledd Cymru yn darparu ffocws i'r partneriaid ac y bydd cywreinio pellach yn cryfhau'r trefniadau hyn
- Bod y Comisiynydd a Heddlu Gogledd Cymru yn gweithio'n dda gyda'u partneriaid i gyflawni eu blaenoriaethau o safbwynt diogelwch cymunedol
- Bod y Comisiynydd yn barod i weithio i wella gwerth am arian ym maes diogelwch cymunedol
- Bod y Comisiynydd a'i bartneriaid yn gweithredu i roi sylw i wendidau yn y trefniadau i lywodraethu a chraffu ar berfformiad diogelwch cymunedol.

26 Rydym yn ymwybodol, ers ein gwaith maes ar draws Cymru, fod sefydliadau yn parhau i ddatblygu ac adolygu eu gwaith ar ddiogelwch cymunedol gyda'u partneriaid. Rydym hefyd yn cydnabod bod y Comisiynydd wedi gweld nifer o wendidau yn y fframwaith partneriaeth ar ddiogelwch cymunedol ac wedi gwneud cryn gynnydd i ddatblygu nifer o gynlluniau i roi sylw iddynt.

27 Rydym yn parhau i herio a chefnogi uwch swyddogion a staff drwy gyfrwng ein trafodaethau parhaus ar gynlluniau blwyddyn benodol y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl a'u cynlluniau ar gyfer y dyfodol.

28 Ar sail Datganiadau Llywodraethu Blynyddol y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl ac, o ganlyniad i'r gwaith a gyflawnwyd, fel y disgrifir uchod fel rhan o'm harchwiliad o gyfrifon 2015-16, a'r holl wybodaeth arall yr ystyriais ei bod yn berthnasol, rwy'n fodlon ynglŷn â bodolaeth y trefniadau a oedd ar waith gan y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl yn ystod y flwyddyn i'w helpu i gyflawni eu cyfrifoldeb i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn eu defnydd o adnoddau yn briodol. Ar sail y gwaith a gyflawnwyd yn unig, rwyf wedi codi amrywiol faterion gyda'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl, ac wedi cyflwyno argymhellion iddynt ar sut i wella'r trefniadau hyn.

## Cyhoeddais dystysgrif yn cadarnhau bod yr archwiliad o'r cyfrifon wedi'i gwblhau ar 27 Medi 2016

29 Cyhoeddais dystysgrif yn cadarnhau bod yr archwiliad o'r cyfrifon ar gyfer y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl wedi'i gwblhau ar 27 Medi 2016.

30 Amcangyfrifais yng Nghynllun Archwilio 2016 mai £82,166 fyddai ffi archwilio 2015-16. Mae'r ffi archwilio wirioneddol yn unol â'm hamcangyfrif gwreiddiol.

# Atodiad 1

## Meini prawf ar gyfer asesu trefniadau o ran sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau

| Trefniadau rheoli perfformiad corfforaethol a rheoli ariannol | Cwestiynau ar drefniadau |
|---|---|
| **Pennu amcanion, penderfynu ar bolisïau a gwneud penderfyniadau** | A yw'r Comisiynydd/Prif Gwnstabl wedi rhoi ar waith drefniadau ar gyfer pennu, adolygu a gweithredu ei amcanion gweithredol a strategol? |
| **Diwallu anghenion defnyddwyr, rhanddeiliaid a'r boblogaeth leol** | A yw'r Comisiynydd/Prif Gwnstabl wedi rhoi ar waith sianelau cyfathrebu gyda'r boblogaeth leol, defnyddwyr y gwasanaeth, a rhanddeiliaid eraill gan gynnwys partneriaid, ac a geir trefniadau monitro i sicrhau y rhoddir ystyriaeth i negeseuon allweddol am wasanaethau? |
| **Monitro ac adolygu perfformiad** | A yw'r Comisiynydd/Prif Gwnstabl wedi rhoi ar waith drefniadau ar gyfer monitro a chraffu ar berfformiad, er mwyn gweld amrywiannau posibl yn erbyn amcanion strategol, safonau a thargedau, ar gyfer gweithredu lle bo angen ac adrodd wrth y Comisiynydd/Prif Gwnstabl? |
| **Cydymffurfiaeth â pholisïau sefydledig** | A yw'r Comisiynydd/Prif Gwnstabl wedi rhoi ar waith drefniadau i gynnal system rheolaeth fewnol gadarn, gan gynnwys trefniadau i sicrhau cydymffurfiaeth â deddfau a rheoliadau, ynghyd â pholisïau a gweithdrefnau mewnol? |
| **Risgiau gweithredol ac ariannol** | A yw'r Comisiynydd/Prif Gwnstabl wedi rhoi ar waith drefniadau i reoli ei risgiau busnes sylweddol? |
| **Rheoli adnoddau ariannol ac adnoddau eraill** | A yw'r Comisiynydd/Prif Gwnstabl wedi rhoi ar waith drefniadau i werthuso a gwella'r gwerth am arian a gaiff wrth ddefnyddio adnoddau? |
| | A yw'r Comisiynydd/Prif Gwnstabl wedi rhoi ar waith drefniadau i sicrhau bod ei wariant yn cyd-fynd â'r adnoddau sydd ar gael iddo? |
| | A yw'r Comisiynydd/Prif Gwnstabl wedi rhoi ar waith drefniadau i reoli a monitro perfformiad yn erbyn cyllidebau, gan gymryd camau unioni lle bo'n briodol, ac adrodd y canlyniadau wrth uwch-reolwyr a'r Comisiynydd/Prif Gwnstabl? |
| **Safonau ymddygiad priodol ayb.** | A yw'r Comisiynydd/Prif Gwnstabl wedi rhoi ar waith drefniadau ar gyfer monitro a chraffu ar berfformiad, er mwyn gweld amrywiannau posibl yn erbyn amcanion strategol, safonau a thargedau ar gyfer gweithredu? |
| | A yw'r Comisiynydd/Prif Gwnstabl wedi rhoi ar waith drefniadau gyda'r bwriad o hybu a sicrhau uniondeb a phriodoldeb wrth gynnal ei fusnes? |

# Atodiad 2

## Risgiau archwilio sylweddol

Roedd fy Nghynllun Archwilio ar gyfer 2016 yn nodi'r risgiau archwilio sylweddol ar gyfer 2015. Mae'r tabl isod yn rhestru'r risgiau hyn ac yn disgrifio sut rhoddwyd sylw iddynt fel rhan o'r archwiliad.

| Risg archwilio sylweddol | Ymateb archwilio arfaethedig | Gwaith a wnaed a'r canlyniad |
|---|---|---|
| Ceir risg y bydd rheolwyr yn diystyru rheolaethau ym mhob endid. Gan nad oes modd rhagweld sut y gallai rheolaethau gael eu diystyru yn y fath fodd, ystyrir ei bod yn risg sylweddol [ISA 240.31-33]. | Bydd fy nhîm archwilio:<br>• yn profi priodoldeb cofnodion mewn dyddlyfrau ac addasiadau eraill a wnaed wrth baratoi'r datganiadau ariannol;<br>• yn adolygu amcangyfrifon cyfrifyddu i ganfod unrhyw duedd;<br>• ac yn gwerthuso'r rhesymeg dros unrhyw drafodion sylweddol nad oes a wnelont â busnes arferol | Ni chododd unrhyw faterion o ganlyniad i adolygu a phrofi cofnodion mewn dyddlyfrau. Ni chododd unrhyw faterion mewn perthynas ag amcangyfrifon arwyddocaol eraill yn y cyfrifon. |
| Ceir risg o gamddatganiadau sylweddol oherwydd twyll wrth gydnabod refeniw ac o'r herwydd ystyrir ei bod yn risg sylweddol [ISA 240.26-27]. | Byddwn yn adolygu dyluniad ac yn profi gweithrediad y rheolaethau yn y systemau o safbwynt:<br>• rheoli'r trysorlys;<br>• incwm o grantiau; a<br>• ffynonellau incwm eraill. | Ni chododd unrhyw faterion o ganlyniad i adolygu'r rheolaethau o safbwynt rheoli'r trysorlys, incwm o grantiau neu ffynonellau incwm eraill. |
| Mae'r cyfnod o gyfyngiadau ariannol sy'n parhau gyda'r gofyn i sicrhau arbedion cost pellach, ynghyd â newidiadau allweddol ymysg y staff, yn esgor ar risg o safbwynt cynhyrchu cyfrifon a chydymffurfio â'r Safonau Adroddiadau Ariannol Rhyngwladol (IFRS) gofynnol a'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig. | Byddwn yn adolygu'r rheolaethau allweddol i helpu i gynhyrchu cyfrifon manwl-gywir ac yn gwneud gwaith archwilio i gadarnhau bod y cyfrifon wedi'u paratoi yn unol â'r safonau perthnasol. | Ni chododd unrhyw faterion sylweddol. |
| Cynhelir etholiadau'r Comisiynwyr Heddlu a Throseddu ym mis Mai 2016 a gallai'r rhain effeithio ar brosesau cynhyrchu ac archwilio dogfennau allweddol yn ystod y flwyddyn. | Bydd fy nhîm archwilio yn cysylltu â'r rheolwyr i nodi'r meysydd o'r broses cynhyrchu cyfrifon y gallai'r etholiadau hyn effeithio arnynt, a bydd yn gweithio i sicrhau y rheolir unrhyw ymyriad posibl. | Ni chododd unrhyw faterion sylweddol. |

| Risg archwilio sylweddol | Ymateb archwilio arfaethedig | Gwaith a wnaed a'r canlyniad |
|---|---|---|
| Cynhwyswyd nifer o ddatgeliadau atebolrwydd wrth gefn a balansau darpariaeth neilltuol yn natganiadau ariannol 2014-15. Rydym yn ymwybodol y cafwyd datblygiadau o safbwynt nifer o'r datgeliadau a'r balansau hyn yn ystod y flwyddyn. | Bydd fy nhîm archwilio yn adolygu'r holl ddatgeliadau atebolrwydd wrth gefn a'r balansau darpariaeth sylweddol, ac yn asesu effaith unrhyw ddatblygiadau sy'n digwydd yn ystod y flwyddyn ar y datganiadau ariannol. | Ni chododd unrhyw faterion sylweddol. |
| Mae gwaith yn parhau i ganfod unrhyw weithrediadau a reolir ar y cyd y mae gofyn eu datgelu dan y Cod a'r rheoliadau archwilio. I wneud y gwaith hwn bydd rhaid cydlynu â heddluoedd eraill yng Nghymru i bennu canlyniadau y cytunir arnynt a chysondeb ar draws Cymru. | Bydd fy nhîm archwilio yn cysylltu â'r rheolwyr ac yn cynnig cymorth yn ystod y gwaith hwn lle bo angen, i sicrhau y nodir ac yr adroddir ar yr holl weithrediadau a reolir ar y cyd yn gywir yn y datganiadau ariannol. | Gwnaed addasiadau priodol i ddatganiadau ariannol 2015-16 i adlewyrchu'r gyfran gyfrifedig o'r budd o weithrediadau cydweithredol. Mae angen gwneud gwaith pellach gyda heddluoedd eraill yng Nghymru i ddarparu'r wybodaeth hon yn gynharach ar gyfer 2016-17. |

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone : 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru